

YMWELIADAU SAFLE

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gafwyd ar 15 Medi, 2021

YN BRESENNOL:	Y Cyngorwyr John Griffith, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones a Dafydd Roberts
WRTH LAW:	Prif Swyddog Cynllunio (DFJ), Cynorthwy-yd Cynllunio (SH) (ceisiadau 1 a 2), Cynorthwy-yd Cynllunio (HR) (ceisiadau 3 a 4), Uwch Beiriannydd (Traffig a Pharcio) (AR), Peiriannydd Rheoli Datblygiad (Priffyrdd) (IH). Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Y Cyngorwyr Glyn Haynes, R O Jones, Nicola Roberts, Ieuan Williams, Robin Williams.
ALSO PRESENT:	Aelodau Lleol: Cyngorwyr Jeff Evans, R LI Jones (cais 1); Dylan Rees (cais 3) Margaret M Roberts (ceisiadau 2 a 4).

O ganlyniad i ymddiheuriadau a dderbyniwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cafodd y Cyngorydd Vaughan Hughes ei ethol yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

1. FPL/2021/144 – Cais llawn ar gyfer gwneud gwaith dymchwel rhannol ynghyd â gwneud addasiadau ac estyniadau er mwyn creu unedau ychwanegol yn Llys Y Gwynt, Llanfawr Close, Caergybi

Dangoswyd lluniadau ynghyd â fideo o'r ardal a'r eiddo cyfagos. Trafodwyd manylion y cais.

2. FPL/2021 – Cais llawn ar gyfer gosod 2 gwt bugail yn Rhosydd, Brynteg

Dangoswyd lluniadau ynghyd â fideo o'r ardal, yr eiddo cyfagos a'r llwybr arfaethedig at y safle. Cafodd lluniadau o'r cytiau bugail arfaethedig hefyd eu dangos yn y cyfarfod.

3. HHP/2021/183 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd â chodi ystafell ardd yn Dirion Dir, Llangefni

Dangoswyd y lluniadau ynghyd â fideo o'r ardal leol ac o safbwynt eiddo cymdogion.

4. HHP/2021/157 – Cais llawn am addasiadau ac estyniadau i The Old Smithy, Marianglas

Cafodd lluniadau eu dangos ynghyd â fideo o'r ardal leol a lleoliad y safle mewn perthynas ag eiddo cyfagos.

Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES
YN Y GADAIR